# Music for Schools
# Cerddoriaeth i Ysgolion

2023-24



CARDIFF COUNTY
& VALE OF GLAMORGAN
MUSIC SERVICE

GWASANAETH CERDD
SIR CAERDYD DA
BRO MORGANNWG

**Cardiff County and Vale of Glamorgan Music Service provides music tuition for all young people age 18 and under across Cardiff and the Vale of Glamorgan.**

**Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn darparu hyfforddiant cerdd i bob person ifanc 18 oed ac iau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.**



We are committed to working closely with all leaders and practitioners in schools and settings across Cardiff and the Vale of Glamorgan to deliver an offer that is in line with your curriculum design, gives outstanding experiences for the children and young people you support and enhances the access and opportunities to the music and arts in your communities.

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r holl arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg i gyflwyno cynnig sy'n cyd-fynd â chynllun eich cwricwlwm, sy'n rhoi profiadau rhagorol i'r plant a'r bobl ifanc yr ydych yn eu cefnogi ac sy'n gwella'r mynediad a chyfleoedd i gerddoriaeth a chelfyddydau yn eich cymunedau.

We provide an exciting and diverse range of music tuition, ensemble and collaborative opportunities for all.

Rydym yn darparu ystod gyffrous ac amrywiol o hyfforddiant cerddoriaeth, ensemble a chyfleoedd cydweithredol i bawb.

**Instrumental lessons**
**Gwersi Offerynnol**

**Learning to sing**
**dysgu canu**

**Performing with others**
**Perfformio gydag eraill**

**Progress your musical ability**
**Cynyddwch eich gallu cerddorol**

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

**Following the publication of a National Plan for Music Education for Wales in May 2022, the National Music Service has now taken its first exciting steps. It is a key investment for music education in Wales and offers quality support and exciting opportunities over the next three years.**

**The Welsh Government wants to make sure that children and young people are able to get education and musical opportunities, whatever their financial situation. Over a period of three years (2022-25), the local music services and national and community musical organisations will be able to give more opportunities to children and young people in their area, opening diverse and beneficial musical paths for everyone.**








**Yn dilyn cyhoeddiad Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth i Gymru ym mis Mai 2022 mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol bellach wedi cymryd ei chamau cyffrous cyntaf. Mae'n fuddsoddiad allweddol i addysg gerdd yng Nghymru, ac yn cynnig cefnogaeth safonol a chyfleoedd cyffrous iawn dros y tair blynedd nesaf.**

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg a chyfleoedd cerddorol, beth bynnag yw eu sefyllfa ariannol. Dros gyfnod o dair blynedd (2022-25) bydd y gwasanaethau cerdd lleol a sefydliadau cerddorol cenedlaethol a chymunedol yn gallu rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc yn eu hardal, gan agor llwybrau cerddorol amrywiol a llesol i bob un.**

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Profiadau Cyntaf
# First Experiences

As a part of the National Plan for Music Education for Wales, our First Experiences programme is available to all Primary schools and ALN settings across Cardiff and the Vale of Glamorgan from January 2023.

These projects can be provided by CCVGMS staff alongside classroom teachers to introduce music into a classroom setting using voice or a range of instruments.

In addition, our Live Music Experiences programme provides schools with inclusive and accessible, live and/or digital, interactive musical performances. These are in collaboration with creative and industry professionals to inspire music-making and support ensemble development.



**Woodwind**
Recorder, Toots, Doods, Clarinets, jFlutes
**Chwythbrennau**

**Percussion**
Samba, Taiko, Djembe, Tabla, Tuned Percussion
Taro tiwniedig
**Taro**

**Strings**
Violin, Cello, Guitar, Ukulele
Ffidil, Sielo, Gitâr, Ukulele
**Llinynnol**

**Brass**
Including PBuzz
gan gynnwys PBuzz
**Pres**



Fel rhan o Gynllun Cenedlaethol Addysg Cerddoriaeth i Gymru, mae ein rhaglen Profiadau Cyntaf ar gael i bob ysgol gynradd a lleoliad ADY ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg o fis Ionawr 2023.

Gall y prosiectau hyn gael eu darparu gan staff CCVGMS ochr yn ochr ag athrawon dosbarth i gyflwyno cerddoriaeth i leoliad ystafell ddosbarth gan ddefnyddio llais neu ystod o offerynnau.

Yn ogystal, mae ein rhaglen Profiadau Cerddoriaeth Fyw yn darparu perfformiadau cerddorol cynhwysol a hygyrch, byw a/neu ddigidol, rhyngweithiol i ysgolion. Mae'r rhain mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol creadigol a diwydiant i ysbrydoli creu cerddoriaeth a chefnogi datblygiad ensemble.

Please contact us for more information
ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Music Pathways

Music Pathways is our programme for secondary school pupils aged 11-16. This supports music wellbeing activities for disadvantaged and under-represented children and young people with access to instruments, tuition and ensemble opportunities.







**Harp**
**Telyn**

**Vocal Projects**
Including Musical Theatre and expressive arts
gan gynnwys theatr gerdd a chelfyddydau mynegiannol
**Prosiectau lleisiol**

**Music Tech & Composition**
**Technoleg cerddoriaeth a chyfansoddi**

**Celtic Folk**
**Gwerin Celtaidd**

Llwybrau Cerdd yw ein rhaglen ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd 11-16 oed. Mae hyn yn cefnogi gweithgareddau lles cerddoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol gyda mynediad i offerynnau, hyfforddiant a chyfleoedd ensemble.

# Llwybrau Cerdd

Please contact us for more information
ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Tuition

We offer individual and group music tuition within our schools.

Our charges range from £63.00 to £252.00 per term, and we are able to offer a variety of lesson lengths and combinations.



We offer a wide variety of instrumental lessons within the service, from harp to steel pan drums and everything in between!
Our tutors can accommodate any musical standard with lessons for beginners right up to Grade 8 standard and beyond.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wersi offerynnol o fewn y gwasanaeth, o delyn i ddrymiau padell ddur a phopeth rhyngddynt!
Gall ein tiwtoriaid ddarparu ar gyfer unrhyw safon gerddorol gyda gwersi i ddechreuwyr hyd at safon Gradd 8 a thu hwnt.



# Gwersi Cerdd

Rydym yn cynnig gwersi cerddoriaeth unigol a grŵp o fewn ein hysgolion.

Mae ein costau yn amrywio o £63.00 i £252.00 y tymor, a gallwn gynnig amrywiaeth o hydoedd a chyfuniadau o wersi.

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Ensembles

We offer a large variety of ensembles as part of our music programme, with something for beginners right up to the advanced, senior members of the service.



**Our ensembles include:**
**Mae ein ensembles yn cynnwys:**

Percussion Ensembles/Ensemble Taro
Harp Ensemble/Ensemble Telynau
Junior Training Choir/Côr Hyfforddi Iau
Senior Training Choir/Côr Hyfforddi Hŷn
Youth Choir/Côr Ieuenctid
Guitar Ensemble/Ensemble Gitâr
Intermediate Wind Band/Band Chwyth Canolradd
Foundation Orchestra/Cerddorfa Sylfaen
High Schools Orchestra/Cerddorfa Ysgolion Uwchradd
Youth Orchestra/Cerddorfa Ieuenctid
Symphonic Brass/Pres Symffonig
Youth Brass Band/Band Pres Ieuenctid
Senior String Ensemble/Ensemble Llinynnol Hŷn
Intermediate String Ensemble/Ensemble Llinynnol Canolradd
Brass, Strings and Woodwind Starters/Dechreuwyr Pres, Llinynnol a Chwythbrennau
Junior and Senior Steel Pans/Pannau Dur Iau/Hyn





# Ensembles

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ensembles fel rhan o'n rhaglen gerddoriaeth, gyda rhywbeth i ddechreuwyr hyd at uwch aelodau'r gwasanaeth.

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Charanga

Charanga Cymru is an exciting digital platform that supports the delivery of Wales' National Plan for Music Education. You can access it easily by signing up on the National Music Service Wales website. The Welsh Government funds your Charanga Cymru membership in full as part of the National Music Service's offer. Developed by the Welsh Government, Charanga and the Welsh Local Government Association, Charanga Cymru is part of National Music Services offer, alongside your local music service, to widen access to music tuition and education across Wales.





Charanga Cymru is suitable for all teachers and practitioners. The platform also includes an extensive training and professional development plan to ensure everyone feels confident in using the resource to support the delivery of music tuition during classroom learning.

Mae Charanga Cymru yn addas i bawb. Mae'r platfform hefyd yn cynnwys cynllun hyfforddi a datblygu proffesiynol helaeth ar gyfer athrawon ac ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r platfform i gefnogi cyflwyno gwersi cerddoriaeth yn ystod y dysgu yn yr ystafell ddosbarth.



Mae Charanga Cymru yn blatfform digidol cyffrous sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Addysg Cerddoriaeth. Gallwch gael mynediad hawdd iddo drwy gofrestru ar wefan Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu eich aelodaeth Charanga Cymru yn llawn fel rhan o gynnig y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol. Wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, Charanga a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Charanga Cymru yn rhan o gynnig y Gwasanaethau Cerddoriaeth Cenedlaethol, ochr yn ochr â'ch gwasanaeth cerddoriaeth lleol, i ehangu mynediad i wersi cerddoriaeth ac addysg ledled Cymru.

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Recording Studio

We have a fully equipped state of the art digital recording and multimedia studio with a large live room/rehearsal and post production space based in Chapter Arts Centre Cardiff. This facility can be booked to record a variety of performances, ranging from solo singers, choirs, string/brass groups to contemporary pop/rock bands and larger ensembles as well as composition, songwriting and recording. We are also able to offer a full multimedia package, including the filming and editing of performances and the production of promotional showreels, both at Chapter or at outside locations.



In addition, we also offer digital recording education and training for staff and pupils. This can range from tuition on iPads using basic recording and editing software such as GarageBand and iMovies right the way up to full professional studio recording engineering using industry standard mixing desks and software such as Cubase, Logic and Final Cut.

..................

Yn ogystal, rydym hefyd yn cynnig addysg a hyfforddiant recordio digidol i staff a disgyblion. Gall hyn amrywio o hyfforddiant ar iPads gan ddefnyddio meddalwedd recordio a golygu sylfaenol fel GarageBand ac iMovies yr holl ffordd hyd at beirianneg recordio stiwdio broffesiynol lawn gan ddefnyddio desgiau cymysgu safonol y diwydiant a meddalwedd fel Cubase, Logic a Final Cut.



# Stiwdio Recordio

Mae gennym stiwdio recordio digidol ac amlgyfrwng o'r radd flaenaf gydag ystafell fyw fawr/gofod ymarfer ac ôl-gynhyrchu yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter Caerdydd. Gellir archebu'r cyfleuster hwn i recordio amrywiaeth o berfformiadau, yn amrywio o gantorion unigol, corau, grwpiau llinynnol/pres i fandiau pop/roc cyfoes ac ensembles mwy yn ogystal â chyfansoddi, cyfansoddi caneuon a recordio. Rydym hefyd yn gallu cynnig pecyn amlgyfrwng llawn, gan gynnwys ffilmio a golygu perfformiadau a chynhyrchu rîl arddangos hyrwyddo, yn Chapter neu mewn lleoliadau allanol.

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

# Music Therapy

We can provide individual and group sessions from fully qualified Music Therapists.

Gallwn ddarparu sesiynau unigol a grŵp gan Therapyddion Cerddoriaeth cwbl gymwys.



### Individual sessions:

Every music therapy session is unique. Our music therapists understand that music is evocative and can trigger different responses. Our aim is to try and enhance each child's life, focusing on what they can do and helping them to reach their potential through music.

### Group Sessions:

Over a six week period, our music therapists will engage in a diverse range of musical activities including games, improvisation and collaborating, developing social, emotional and communication skills. We invite the children to choose to be part of the group, sharing the space and music making.




# Therapi Cerdd

### Sesiynau unigol:

Mae pob sesiwn therapi cerdd yn unigryw. Mae ein therapyddion cerdd yn deall bod cerddoriaeth yn atgofus ac yn gallu sbarduno gwahanol ymatebion. Ein nod yw ceisio cyfoethogi bywyd pob plentyn, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gallant ei wneud a'u helpu i gyrraedd eu potensial trwy gerddoriaeth.

### Sesiynau Grŵp:

Dros gyfnod o chwe wythnos, bydd ein therapyddion cerdd yn cymryd rhan mewn ystod amrywiol o weithgareddau cerddorol gan gynnwys gemau, gwaith byrfyfyr a chydweithio, gan ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu. Rydym yn gwahodd y plant i ddewis bod yn rhan o'r grŵp, gan rannu'r gofod a chreu cerddoriaeth.

ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk



I gael rhagor o wybodaeth ac ymholiadau cofrestru, ewch i wefan Cyngor Caerdydd, neu anfonwch e-bost at ccvgmusicservice@caerdydd.gov.uk

For more information and registration enquiries, please visit us online via the Cardiff Council website, or email us at ccvgmusicservice@cardiff.gov.uk

CCVG Music Service/Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a Bro Morgannwg

@ccvg_musicservice

@ccvgms

GWASANAETH CERDD SIR CAERDYDD DA BRO MORGANNWG

CARDIFF COUNTY & VALE OF GLAMORGAN MUSIC SERVICE